OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 815 (Cy.100)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003

Wedi'u gwneud - -	*20 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(2), (3) a (5) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "y Bwrdd" ("*the Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol Powys(**2**)

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw 1 Ebrill 2003

ystyr "y Swyddogaethau Ychwanegol" ("*the Additional Functions*") yw —

(a) perchenogaeth a rheolaeth adeiladau a gwasanaethau ysbyty yn Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LU ac ysbytai cysylltiedig(**3**); a

(b) rheolaeth gwasanaethau iechyd cymunedol a ddarperir gan Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys, LD3 0LU a pherchenogaeth y tir a'r adeiladau cysylltiedig; ac

(c) swyddogaethau rheolwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**4**).

(**1**) 1977 p.49. Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf 1999, Atodlen 4, a pharagraff 37(6). Mewnosodwyd adran 16BB gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17)

(**2**) Sefydlwyd o dan adran 16BA(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gan O.S./2003/148 (Cy.18).

(**3**) Trosglwyddwyd asedau, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwladol Powys i'r Bwrdd gan Orchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/473 (Cy.63)).

(**4**) 1983 p.20 ("Deddf 1983"); mae i'r ymadrodd "rheolwyr" yr ystyr a roddir i "managers" gan adran 145(1) o Ddeddf 1983.